Cwrs Byr Ysgrifennu Creadigol Lefel 3 (Rhan-Amser)

Ydych chi wrth eich bodd yn ysgrifennu? Awydd dod yn awdur proffesiynol, neu ddilyn cwrs sy'n caniatáu ichi ymarfer eich sgiliau ysgrifennu? Mae'r cyrsiau newydd a chyffrous hyn yn cynnig y cyfle unigryw hwnnw i chi. Byddwch yn astudio ac yn ymarfer ysgrifennu ar draws pob math a genre: stori fer ffuglen; y nofel; ysgrifennu sgriptiau; ffeithiol: hunangofiant a barddoniaeth – pob prif ffurf. Byddwn hefyd yn eich cyflwyno i syniadau am sut i fynd ati i gyhoeddi eich gwaith ac yn gwahodd cyfres o awduron proffesiynol i ddod i siarad â chi am eu gwaith a'u profiadau fel ysgrifenwyr.

Gall y cwrs Lefel 3 hwn naill ai ategu'r cwrs Lefel 2 sy'n rhedeg yn gynharach yn y flwyddyn, neu gellir ei ystyried yn brofiad newydd sbon o ysgrifennu creadigol. Mae'r cwrs hwn yn gwrs 12 wythnos ac yn rhedeg rhwng Ionawr a Mawrth.

Mae gan bawb stori i'w hadrodd, boed hynny ar ffurf nofel, sgript neu gerdd!

Y cwrs hwn yw eich cyfle i adrodd eich stori, go iawn neu ddychmygol, a darganfod eich llais ysgrifennu a'r ffurf orau y gellir ei chlywed. Cyflwynir y Cwrs trwy ddarlithoedd a gweithdai ysgrifennu cefnogol lle cewch gyfle i rannu'ch gwaith a chael adborth gwerthfawr i'ch helpu i ddatblygu eich ysgrifennu. Fe'ch anogir i gadw dyddiadur darllen ac ysgrifennu i fapio'ch datblygiad fel ysgrifennwr.

Asesir y cwrs trwy unedau Agored Cymru a chyflwyno portffolios ysgrifennu a sylwebaethau myfyriol sy'n esbonio'r broses yr aethoch drwyddi o syniadau cychwynnol, drafftio a fersiynau terfynol. Gallwch chi gyflawni Lefel 3 neu 2 o'ch cyflwyniadau, fodd bynnag, nid yw hyn yn orfodol os ydych chi am fynychu dim ond er mwynhad mawr a gwella a datblygu eich sgiliau ysgrifennu hefyd.

Cynhelir y dosbarth cyntaf ddydd Mawrth 14 Ionawr 2025 am 6pm.

Gofynion Mynediad

Dim

Rhagolygon Gyrfa

Gradd ysgrifennu creadigol, newyddiaduraeth, ysgrifennu sgriptiau, ysgrifennu proffesiynol (arall) mewn unrhyw genre.

Asesiad

Asesir y cwrs trwy unedau Agored Cymru a chyflwyno portffolios ysgrifennu a sylwebaethau myfyriol sy'n esbonio'r broses yr aethoch drwyddi o syniadau cychwynnol, drafftio a fersiynau terfynol. Gallwch chi gyflawni Lefel 3 neu 2 o'ch cyflwyniadau, fodd bynnag, nid yw hyn yn orfodol os ydych chi am fynychu dim ond er mwynhad mawr a gwella a datblygu eich sgiliau ysgrifennu hefyd.

DULL ASTUDIO

PT

LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 0330 818 8100

HYD Y CWRS

12W